Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mrs Rhian Pritchard
Ysgol Gynradd Llandybie
Llandybie
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin
SA18 3JB

13/11/2024

Annwyl Mrs Pritchard

**Ymweliad Interim:** Hydref 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Llandybie yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Gorffennaf 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- Ymweld â dosbarthiadau.
- Siarad â disgyblion.
- Cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr.
- Craffu ar waith disgyblion.
- Craffu ar ddogfennaeth.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n briodol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau y gallent wella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau sylfaenol a chreadigol y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth**

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn. Maent yn cydnabod y gwelliannau yn y ddarpariaeth ers yr arolygiad craidd, ac yn adnabod yn briodol yr elfennau sydd angen eu gwella.
- Mae athrawon wedi ymgymryd ag ystod addas o ddysgu proffesiynol pwrpasol er mwyn cyfoethogi eu dealltwriaeth o egwyddorion dysgu sylfaen, gan gynnwys y defnydd o'r ardaloedd allanol. Yn ogystal, maent wedi ymweld

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

ag ysgolion eraill er mwyn arsylwi ac efelychu arferion da er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ardaloedd. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth staff o addysgu effeithiol sydd yn ei dro yn dechrau cefnogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

- Yn gyffredinol, mae athrawon dosbarthiadau'r dysgu sylfaen yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu a chwarae buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. O ganlyniad, mae'r ardaloedd dysgu y tu fewn yn annog disgyblion i ymarfer a chymhwyso'u medrau'n effeithiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 drefnu darnau arian er mwyn rhoi newid hyd at £2 yng Nghaffi Drysi. Mae hyn yn datblygu eu medrau'n dda mewn dull ymarferol.
- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi ailstrwythuro lleoliad y dosbarthiadau er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 fynediad at ardal ddysgu allanol. Er bod yr ardal hon yn gyfyng iawn, mae staff yn gwneud defnydd pwrpasol i gynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddysgu ynddynt. Yn ogystal, maent wedi sefydlu ardaloedd pwrpasol i ddatblygu medrau creadigol disgyblion, sy'n cynnwys ardaloedd cerddoriaeth a pherfformio, a chorneli chware rôl. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i arbrofi ac archwilio yn eu dysgu yn fedrus.
- Mae ardal allanol y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cynnar. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion ddilyn cyfarwyddiadau am sut i wneud bwyd allan o bridd i Dai y draenog. Yn dilyn y weithgaredd ymarferol hon, darperir cyfleoedd buddiol iddynt  wneud dewisiadau o sut i greu poster er mwyn dod o hyd i'r draenog.
- Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu ardal allanol pwrpasol i gefnogi dysgu mewn gwahanol ardaloedd dysgu allanol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Erbyn hyn, mae'r ardd ac ardal y 'sgubor yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu sut i dyfu llysiau. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r disgyblion ieuengaf yn tyfu tatws a moron a'u cynaeafu er mwyn eu paratoi ar gyfer preswylwyr mewn cartref lleol.

**Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu**

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o'r cynnydd mae'r ysgol yn ei wneud tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn. Mae'r holl athrawon yn cymryd rhan weithredol yn y broses hunanwella ac yn rhannu arfer dda yn effeithiol ar draws yr ysgol. Dros gyfnod, mae'r athrawon wedi treialu gweithgareddau amrywiol i gefnogi disgyblion i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu, er enghraifft drwy ddatblygu'r 'pasbort dysgu'. Maent yn gwerthuso effaith y gweithdrefnau ar ddatblygiad medrau'r disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion a diddordebau disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio profiadau dysgu sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu drwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Mae murluniau 'llais y disgybl' yn cefnogi hyn yn fwriadus. O ganlyniad, mae agweddau'r disgyblion at eu dysgu yn gadarnhaol ac maent yn trafod eu gwaith yn frwd.

- Ar draws yr ysgol, mae disgyblion wedi dod yn fwy annibynnol wrth adnabod cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu dysgu. Maent yn defnyddio peniau lliwgar wrth asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn addas. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd priodol i ymateb i'r adborth er mwyn adnabod y camau nesaf a symud eu dysgu ymlaen.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu. Mae staff y disgyblion ieuengaf yn eu hannog i weithio'n annibynnol ac i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu, er enghraifft drwy ddewis heriau amrywiol o fewn y ddarpariaeth barhaus yn addas. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn rhan weithredol o drafodaethau ar yr heriau drwy gynnig syniadau a dewis gweithgareddau buddiol. Ar y cyfan, mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd priodol i ddewis y modd mwyaf effeithiol i gofnodi eu gwaith yn annibynnol tra'n dysgu am themâu penodol. Er hyn, ar adegau, mae gor-arwain gan staff ar draws yr ysgol yn llesteirio cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy archwilio ac i ddewis sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692181

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol